## Pam ydych chi'n gofyn am sampl gwaed?

Mae llawer o astudiaethau'n casglu samplau biolegol yn rheolaidd, megis gwaed. Gall dadansoddiad o'r samplau hyn ddweud llawer wrth ymchwilwyr am iechyd y boblogaeth. Bydd casglu samplau gwaed nawr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i ymchwilwyr am wahanol agweddau ar iechyd pobl. I'r bobl hynny a gymerodd ran yn gynharach yn Understanding Society pan wnaethom gasglu samplau gwaed yn flaenorol, byddwn yn gallu edrych ar newidiadau mewn iechyd ers hynny.

## A oes unrhyw resymau iechyd neu feddygol pam na ddylwn i roi sampl gwaed?

Rydym yn cynghori pobl sydd â chyflyrau penodol i beidio â chymryd sampl gwaed. Y rhain yw:

- Cyfranogwyr sy'n feichiog
- Cyfranogwyr ag anhwylderau ceulo neu waedu
- Cyfranogwyr sydd ar feddyginiaeth gwrthgeulo ar hyn o bryd (e.e. therapi Warfarin)
- Menywod sydd wedi cael mastectomi diweddar ac mae chwydd ar y fraich
- Cyfranogwyr sydd ar ddialysis arennol
- Cyfranogwyr sydd yn HIV, Hepatitis B neu Hepatitis C bositif

## Pwy sy'n gysylltiedig â rhoi sampl gwaed?

Os byddwch chi'n rhoi caniatâd inni mewn cyfweliad, bydd y labordy profi gwaed Thriva yn anfon pecyn casglu sampl gwaed atoch trwy'r post. Mae'r pecyn yn ddigon bach i ffitio trwy'r blwch llythyrau.

Os bydd mwy nac un person yn y cartref wedi cytuno i gael pecyn wedi'i anfon, gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio'r pecyn sydd wedi'i gyfeirio atoch chi. Yr unig ffordd y gallwn baru'r sampl â'r person yw'r cod bar ID sydd ar y pecyn. Os oes cymysgedd o fewn cartref, a'ch bod yn anfon y sampl sydd â chod bar rhywun arall yn ôl, yna ni fyddwn yn gallu dadansoddi'r gwaed.

Ar ôl i chi dderbyn y pecyn, agorwch ef, a darllenwch yr holl gyfarwyddiadau yn ofalus.

Bydd angen i chi bigo'ch bys a chasglu'r diferion gwaed yn ddau diwb bach. Mae fideo byr yn dangos yr hyn sydd yn y pecyn i chi, a sut i'w ddefnyddio ar gael yn https:// vimeo.com/790753028/34d7543734

Bydd yn ddefnyddiol os byddwch yn gwylio'r fideo cyn i chi ddechrau.

Pan fyddwch wedi cymryd y sampl, mae angen i chi ddychwelyd y tiwb sy'n cynnwys y sampl yn yr amlen ragdaledig a ddarperir yn y pecyn. Pan fydd y sampl yn cael ei dderbyn gan Thriva, byddant yn profi'ch gwaed. Byddwn yn anfon y canlyniad atoch os byddwch yn gofyn i ni wneud hyn.

Nid yw'r canlyniadau'n ddiagnostig, maent at ddibenion ymchwil yn unig. Os oes gennych unrhyw bryderon am eich iechyd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu yn ôl yr arfer.

I ddweud diolch am gasglu'r sampl, byddwn yn anfon taleb o £5 atoch ar ôl i'r sampl gael ei dychwelyd atom.

## Ble allaf ddarganfod mwy am sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Gallwch ddysgu mwy am sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yn www.understandingsociety.ac.uk/projects/health/privacy

## Beth os byddaf yn newid fy meddwl yn ystod yr astudiaeth?

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw ran o'r astudiaeth nad ydych am ei wneud. Mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg – nid oes angen i chi roi rheswm. Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, trwy ofyn i ni yn ysgrifenedig i'ch gwaed gael ei dynnu o'r storfa a'i ddinistrio.

## Beth os oes gennyf bryderon am y ffordd y cynhaliwyd yr astudiaeth?


Cysylltwch â Michaela Benzeval, Cyfarwyddwraig Understanding Society
**01206 873983** **mbenzeval@essex.ac.uk**

Paul Clarke, Cyfarwyddwr Ymchwil ISER
**01206 873760** **pclarke@essex.ac.uk**

Mantalena Sotiriadou, Rheolwr Llywodraethu a Chynllunio Ymchwil ym Mhrifysgol Essex
**01206 876320** **ms21994@essex.ac.uk**


## Unrhyw gwestiynau?

Am fwy o wybodaeth am y casgliad sampl gwaed ewch i www.understandingsociety.ac.uk/projects/health/blood

Os ydych wedi newid eich meddwl am y dadansoddiad a wnawn gyda'r gwaed, neu dderbyn eich canlyniadau, cysylltwch â ni. Os hoffech gysylltu â ni ar unrhyw adeg gallwch anfon e-bost neu siarad ag un ohonom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:


**0800 252 853** **contact@understandingsociety.ac.uk**



Os cewch eich cyfweld wyneb yn wyneb, bydd y cyfwelydd yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.


Economic and Social Research Council

ISER Institute for Social & Economic Research

University of Essex


Understanding Society



# Casgliad sampl gwaed

### Gwybodaeth i gyfranogwyr

## Beth fydd yn digwydd i'r sampl gwaed yr wyf yn ei darparu?

Hoffem astudio'ch samplau gwaed ar gyfer rhai elfennau y dangoswyd eu bod yn effeithio ar iechyd trwy ofyn i chi roi sampl gwaed pigo bys. Bydd data dienw o'r dadansoddiad gwaed ar gael i ymchwilwyr dibynadwy drwy UK Data Service a storfeydd data diogel eraill.

Os byddwch yn rhoi caniatâd i ni, hoffem hefyd gymryd sampl o DNA o'ch sampl gwaed i gynnal profion genetig. Bydd y data geneteg ar gael i ymchwilwyr dibynadwy i'w dadansoddi. Bydd yn rhaid i unrhyw ddadansoddiad gael ei gymeradwyo gan bwyllgor mynediad data. Ni fydd y data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer profion tadolaeth, ceisiadau yswiriant bywyd neu forgais, ac ni fydd unrhyw ganfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i chi.

Gallwch roi caniatâd i ni ddadansoddi'ch gwaed, ond nid cymryd sampl DNA os dymunwch.

Ar ôl astudio'ch sampl gwaed, os byddwch chi'n rhoi caniatâd, hoffem storio unrhyw waed sy'n weddill mewn cyfleuster diogel wedi'i drwyddedu o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol a'i wneud ar gael ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Bydd eich gwaed ar gael i ymchwilwyr dibynadwy i'w dadansoddi. Bydd yn rhaid i unrhyw ddadansoddiad gwaed gael ei gymeradwyo gan bwyllgor annibynnol. Ni fydd y samplau gwaed wedi'u storio yn cael eu profi am y firws HIV, ac ni fyddant ar gael at ddibenion masnachol. Ni fydd unrhyw ganfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i chi.

## Pa ddadansoddiadau fydd yn cael eu cynnal ar samplau gwaed?

Bydd eich samplau gwaed yn cael eu dadansoddi ar gyfer

Cyfanswm colesterol, Triglyseridau: 'Braster yn y gwaed' sy'n gysylltiedig â chlefyd y galon.
Colesterol HDL: 'Colestorol da' yn eich gwaed.
Creatinin: Pa mor dda y mae'ch arennau yn gweithio
Profion swyddogaeth yr afu: Pa mor dda y mae'ch afu yn gweithio.
Y Fitamin D yn eich gwaed, sy'n bwysig ar gyfer iechyd yr esgyrn.

Fferitin, Haemoglobin: Lefelau haearn yn eich gwaed, sy'n fesur o anaemia.
HbA1c (haemoglobin glycedig): Y siwgr yn eich gwaed, prawf am ddiabetes.
Protein C-adweithiol: Llid, naill ai oherwydd anaf neu haint neu ymateb i straen.

Testosteron, Dehydroepiandrosterone: Hormonau yn eich corff, sy'n gysylltiedig â straen, adeiladu cyhyrau a heneiddio.
Globwlin Rhwymo Hormon Steroid: Protein sy'n cludo steroids, megis testosteron, yn y gwaed ac o amgylch y corff.

Bydd samplau gwaed yn cael eu dadansoddi yn y DU, Ewrop neu wledydd eraill sydd â'r amddiffyniad data cyfatebol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Bydd eich DNA yn cael ei ddadansoddi gan labordy achrededig i nodi miloedd o enynnau yn eich gwaed. Mae amrywiadau mewn DNA yn arwain at fersiynau ychydig yn wahanol o enynnau mewn gwahanol bobl – mae'r genynnau hyn yn gyfrifol am ddylanwadu ar brosesau biolegol ac felly sut mae'ch corff yn gweithio. Mae cyfuno'r data genetig hwn â gwybodaeth am eich amgylchedd, ffordd o fyw ac iechyd yn caniatáu i ymchwilwyr ymchwilio i ryngweithio cymhleth rhwng iechyd ac amgylchiadau pobl. Dros amser, gellir newid swyddogaeth genynnau naill ai'n naturiol neu gan ein hamgylchedd. Gelwir un mesur o hyn yn 'fethylu'. Byddwn yn mesur hyn hefyd fel y gall ymchwilwyr archwilio os a sut y mae'n rhoi pobl mewn mwy o berygl o broblemau iechyd.



## Pryd fydda i'n cael fy adborth?

Os ydych chi wedi gofyn am adborth, byddwn yn ei anfon atoch chi o fewn ychydig wythnosau o ddychwelyd eich sampl gwaed yn y post. Byddwn yn darparu adborth ar eich canlyniadau colesterol a Hba1c (lefel siwgr yn y gwaed).

## Beth os oes pryder gyda chanlyniadau fy ngwaed?

Os codir pryder ar unwaith a difrifol am eich canlyniadau, gall Meddyg yr Arolwg gysylltu â chi os yw'n teimlo ei fod yn peri risg difrifol i'ch iechyd, hyd yn oed os na wnaethoch ofyn am adborth. Mae hyn yn rhan o'n dyletswydd gofal proffesiynol.

## Pwy sy'n cynnal yr astudiaeth ymchwil?

Ymchwilwyr yn y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ISER) ym Mhrifysgol Essex sy'n cynnal yr astudiaeth. Bydd Verian (Kantar Public gynt) a National Centre for Social Research (NatCen) yn gweithio gyda ni i gynnal gwaith maes. Darparwyd cyllid ar gyfer yr astudiaeth gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).

Os byddwch yn gofyn am becyn, bydd Verian yn anfon eich cyfeiriad at y cwmni profi gwaed Thriva a fydd yn ei dro yn anfon y pecyn atoch gyda chod bar. Pan fyddwch yn dychwelyd y sampl, mae'n mynd yn ôl i Thriva.

Mae mwy o wybodaeth am Thriva ar gael er eu gwefan https://thriva.co/ Bydd mesurau genetig o DNA mewn gwaed yn cael eu gwneud gan labordy achrededig. Bydd gwaed yn cael ei storio mewn cyfleuster diogel wedi'i drwyddedu o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol.

## Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Na. Chi sy'n penderfynu a ydych chi'n cymryd rhan yn yr astudiaeth. Hyd yn oed os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, trwy ofyn i ni yn ysgrifenedig i'ch gwaed gael ei dynnu o'r storfa a'i ddinistrio.

## Pa fuddion sydd ynghlwm â chymryd rhan?

Bydd eich cyfranogiad yn ein helpu ni i ddysgu mwy am iechyd a llesiant, a bydd yn cyfrannu at ymchwil ar iechyd y boblogaeth.

## Beth yw'r risgiau cymryd rhan?

Efallai y bydd eich bys ychydig yn boenus o'r pigiad bys sydd ei angen i gynhyrchu diferion gwaed. Fel gydag unrhyw friw bach, dylid cadw'r ardal yn lân er mwyn osgoi haint. Fodd bynnag, mae'r broses a'r cynhyrchion yn y pecyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ystod eang o gymwysiadau gofal iechyd, gan gynnwys mesur lefelau glwcos yn y gwaed wrth reoli diabetes. Mae'r cyfarpar yn sterilaidd a bydd dilyn y cyfarwyddiadau yn y pecyn yn isafu ar y risg o haint (megis glanhau'r ardal cyn ac ar ôl). Mewn achos annhebygol y byddwch yn anafu eich hun neu'n teimlo'n sâl, ceisiwch sylw meddygol. Defnyddiwch wasanaeth ar-lein GIG 111. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch GIG 111. Am argyfwng meddygol ffoniwch 999.

## A yw'r astudiaeth wedi'i hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg?

Ydy. Cyn y gellir gwneud unrhyw ymchwil fel hyn, caiff ei ystyried yn ofalus gan Bwyllgor Moeseg. Yn yr achos hwn, cymeradwywyd yr astudiaeth gan Awdurdod Ymchwil Iechyd y GIG, Pwyllgor Moeseg Ymchwil Dwyrain Lloegr - Essex, cyfeirnod: 22/EE/0260.

## Sut byddwch chi'n defnyddio gwybodaeth amdanaf i?

Bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth gennych chi ar gyfer yr astudiaeth hon.

Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt. Bydd Verian a NatCen, ein partneriaid gwaith maes, yn defnyddio'ch enw a'ch manylion cyswllt i gynnal yr astudiaeth. Os byddwch yn cymryd rhan yn y casgliad sampl gwaed, bydd Thriva, y labordy sy'n cynnal y dadansoddiad, yn defnyddio'ch manylion cyswllt a'ch dyddiad geni a'ch rhywedd fel y gallant anfon pecyn casglu atoch a dadansoddi'ch sampl gwaed. Bydd Verian yn anfon canlyniadau eich dadansoddiad gwaed atoch, os ydych yn dymuno derbyn y rhain.

Os ydych chi'n cytuno i gael eich gwaed wedi'i storio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, ni fydd eich enw a'ch cyfeiriad ynghlwm wrth y sampl – bydd eich sampl yn aros yn gyfrinachol. Cyn cael ei ddefnyddio mewn ymchwil yn y dyfodol, efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu yn yr arolwg hwn (ond nid unrhyw fanylion a fyddai'n eich adnabod) ynghlwm wrth y sampl.

Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth amdanoch chi yn saff ac yn ddiogel. Ni fydd canlyniadau'r astudiaeth byth yn cynnwys unrhyw enwau na chyfeiriadau. Defnyddir y wybodaeth a gesglir at ddibenion ymchwil yn unig a chaiff ei thrin yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Unwaith y byddwn wedi gorffen yr astudiaeth, bydd y data dienw ar gael gan Archif Ddata'r DU, Archif Genome-Phenome Ewropeaidd, storfeydd data diogel eraill neu gan dîm yr Astudiaeth i ymchwilwyr dibynadwy. Mae pob adroddiad ymchwil wedi'i ysgrifennu mewn ffordd na all unrhyw un weithio allan eich bod wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth.

## Beth yw fy newidiadau am sut mae fy ngwybodaeth a sampl gwaed yn cael eu defnyddio?

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol. Nid oes rhaid i chi wneud unrhyw ran o'r astudiaeth nad ydych am ei wneud. Gallwch roi'r gorau i fod yn rhan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. Mewn achos annhebygol y byddwch chi'n colli'r capasiti, byddem yn eich tynnu'n ôl o'r astudiaeth. Gallwch chi, neu gynrychiolydd ar eich rhan, ofyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu. Gallwn ddileu unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni nad yw wedi'i hadneuo eto gydag Archif Ddata'r DU a storfeydd data diogel eraill, ond ni allwn gael gwared ar ddata sydd eisoes ar gael i ymchwilwyr. Gellir dileu unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir gennym, fel eich manylion cyswllt, ar unrhyw adeg.

Os tynnwch eich caniatâd yn ôl i storio'ch gwaed ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, byddwn yn dinistrio'ch sampl gwaed. Fodd bynnag, lle mae eich samplau gwaed eisoes wedi'i dadansoddi a chanfyddiadau'r ymchwil yn gyhoeddus, ni allwn dynnu'ch canlyniadau gwaed o'r data.

Mae angen i ni reoli'ch cofnodion mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gallu newid y data sydd gennym amdanoch chi. Os hoffech weld y data sydd gennym amdanoch, gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth.

